

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 07.06.016**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cynghorwyr Arwel Nicholas, Pamela Jones, Mike Poston, Elfed Davies, Dylan Jones, Danny Davies, Wyn Thomas, y Cyngorydd Sir Irfon Jones**  
**Ymddiheuriadau: Carolyn Smethurst**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Cyhoeddiad gan y Cadeirydd	Roedd y Cadeirydd wedi llongyfarch y Cyng. Wyn Thomas ar ei benodiad yn Faer Caerfyrddin yn ddiweddar.	
Datgan Buddiannau	Ni ddatganwyd buddiannau.	
Cofnodion	Gwelwyd bod y cofnodion yn gywir - ED a DD	
Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol	Roedd angen ychwanegu enw Dylan Jones at y rhestr o aelodau a oedd yn bresennol. Yn amodol ar y newid hwn roedd y cofnodion yn gywir – ED a DJ	
Materion yn Codi	<p><b>Priffyrdd</b> – Anfonwyd y cynigion i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya a 40mya at yr ymgylgoreion statudol. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn atebion oedd 10 Mehefin 2016. Os na fydd gwrthwynebiad, y cam nesaf fydd cyhoeddi'r gorchymyn drafft. Cadarnhawyd bod y gwaith patsio wedi cael ei wneud.</p> <p><b>Safleoedd Bws</b> – Cadarnhaodd y cynghorwyr fod angen i'r gwelliannau angenrheidiol gael eu gwneud.</p> <p><b>Meinciau</b> – Cyflwynwyd gwybodaeth ychwanegol gan gyflenwr gwahanol. Ar ôl trafod y mater penderfynwyd archebu mainc gan gwmni Glasdon fel y trafodwyd o'r blaen – cynnig gan WT, wedi'i eilio gan DD.</p> <p><b>Diffeithwch Penbompren</b> – Cyflwynwyd rhagor o wybodaeth ynghylch yswiriant, asesiad risg ac atebolrwydd. Mynegwyd pryder ynghylch y gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad nes bod rhagor o wybodaeth yn dod i law.</p> <p><b>Skanda Vale</b> – Trafodwyd materion yn gysylltiedig â cheir yn teithio i Skanda Vale. Derbyniwyd cynnig y Clerc i drafod ymhellach â'r Brodyr.</p>	
Gohebiaeth	<p>Derbyniwyd neges e-bost gan Ralph Carpenter ynghylch y B4301. Nodwyd yr wybodaeth a chyfeiriwyd at y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod blaenorol.</p> <p>Archwiliad – Roedd ffurflen yr Archwiliad yn barod i'w llofnodi. Gan fod y Clerc yn absennol penderfynwyd gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf.</p> <p>Hyfforddiant Côt Ymddygiad – gofynnwyd i'r cynghorwyr</p>	

	<p>gysylltu â'r Clerc os oeddynt yn gallu mynd i'r hyfforddiant yn Neuadd y Sir ar 15 Mehefin.</p> <p>Datgan buddiannau – bydd y Clerc yn darparu'r wybodaeth yr oedd y Cyngor Sir yn gofyn amdani.</p> <p>Ymddiriedolwyr y Neuadd – mewn ymateb i gais gan Bwyllgor y Neuadd, ail-enwebwyd Dylan Jones a Gwyneth Ayers.</p>	
Cynllunio	Llety i Bererinion, Skanda Vale – nid oedd rhagor o wybodaeth am y cais ar gael yn y cyfarfod.	
Materion Ariannol	<p>Cyfieithu – Trywydd - £71.25 – WT a PJ</p> <p>Cyflog y Clerc - £130.60 + £4.40 treth – DJ a DD</p> <p>Yswiriant – cafwyd esboniad ynghylch y cynnydd diweddar yn y bil yswiriant a derbyniwyd hynny – WT a DJ</p>	
UFA	<p>Gofynnodd PJ pryd y byddai'r cloddiau'n cael eu trasio.</p> <p>Cysylltir â'r Cyngor Sir i roi gwybod am broblemau gwelededd yn arbennig gerllaw cyffyrdd.</p> <p>Mynegodd DJ bryder ynghylch ymyl y ffordd ar Rhiw Graig ynghyd â'r ffordd ger croesfan Bronwydd. Gobeithiai'r Cyng Irfon Jones y byddai gwaith yn cael ei wneud yn fuan.</p> <p>MP – dim materion</p> <p>WT – dim materion</p> <p>ED – dim materion</p> <p>DD – dim materion</p> <p>AN – dim materion</p>	
Diwedd y cyfarfod	9.14pm	

<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad : .....</p>	<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Ysgrifennydd)</p> <p>Dyddiad: .....</p>
--	--